# Canllawiau

## ar gyfer darparwyr gofal a gofal iechyd

- **Asesiad Risg Tân**
- Lefelau staffio
- **Gwacáu**
- Cadw pellter cymdeithasol yn y man ymgynnull
- **Pobl agored i niwed**
- Hyfforddiant
- **Defnyddio diffoddyddion tân**
- Profi a chynnal a chadw
- **Ffordd o ddianc**
- Ymweliadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub
- **Hysbysiadau cyfreithiol cyfredol a dderbyniwyd gan fy Ngwasanaeth Tân ac Achub lleol**
- Materion Amrywiol




**YN EICH CEFNOGI CHI I AMDDIFFYN EICH BUSNES**




# Asesiad Risg Tân

Mae'r RR (FS) O 2005 yn dal yn berthnasol ac mae'n ddyletswydd ar y Person Cyfrifol a ddiffinnir yn Erthygl 3 y Gorchymyn i sicrhau bod risg o dân yn cael ei nodi a bod mesurau addas yn cael eu rhoi ar waith, dylid cofnodi'r rhain yn eich asesiad risgiau tân. Dylai pob cyfleuster gofal a ddarperir adolygu ei Asesiad Risg Tân a'i Weithdrefnau/Cynlluniau Brys yng ngoleuni effaith bosib COVID-19 ar eu lefelau staffio, trefniadau gwacáu, hyfforddiant a chynnal a chadw.



# Lefelau staffio

Yn ystod y cyfnod anodd hwn, dylai Unigolyn Cofrestredig wneud yn siwr bod digon o staff ar gael i gefnogi Strategaeth Gwacáu'r Safle mewn argyfwng. Os yw lefelau staffio'n cael eu heffeithio ar hyn o bryd gan COVID-19, dylai cartrefi gofal adolygu eu Hasesiad Risg Tân a'u Cynllun Brys. Os na all y lefelau staffio gynnal y strategaeth ddianc, dylai'r cartref gofal ymgynghori â'i Asesydd Risg Tân neu Awdurdod Sylfaenol.




# Gwacáu

Os ceir digwyddiad mor anffodus â thân yn eich safle, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y gwasanaeth tân yn cael ei alw cyn gynted â phosibl a bod cadarnhad yn cael ei ddarparu i hysbysu'r gweithredwr bod y broses wacáu yn digwydd.



# Cadw pellter cymdeithasol yn y man ymgynnull

Os yw'n ofynnol i'r holl breswylwyr adael safle ac adrodd i fan ymgynnull a bennwyd ymlaen llaw, gallai effeithio ar gadw pellter cymdeithasol yn ystod y broses wacáu, ceir rhagor o wybodaeth drwy ddilyn canllawiau CCPT ar gynnal hylendid mewn Mannau Ymgynnull.



# Pobl agored i niwed

Dylai'r Person Cyfrifol sicrhau bod Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEPs) yn parhau i gael eu hadolygu lle mae preswylwyr yn dibynnu ar lefelau staffio i gychwyn gweithdrefnau gwacáu. Rhaid i adolygiadau o'r fath bwyso a mesur y risgiau tân yn ofalus a'r cyfleusterau i weithredu'n ddiogel. Gallai'r PC ystyried, lle bo hynny'n ymarferol, adleoli preswylwyr o fewn y safle, lleihau'r mannau sy'n cael eu defnyddio, ac ymchwilio i bob ffordd o ddarparu'r nifer gofynnol o staff. Os oes unrhyw amheuaeth, gallech ystyried cynlluniau wrth gefn.



# Hyfforddiant

Dylai'r Person Cyfrifol sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi i'w helpu i reoli diogelwch tân, a bod pawb yn deall beth i'w wneud os bydd tân. Os bydd angen, gall unrhyw aelod staff newydd ymgyfarwyddo â'r eiddo drwy ymarfer bwrdd gwaith. Dylai pob aelod o staff sy'n gweithio yn yr eiddo dderbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'u cyfrifoldebau mewn achos o dân. Dylid adolygu a diweddaru lefel bresennol hyfforddiant yr holl unigolion yn ôl yr angen, mae hyn yn hanfodol i breswylwyr nad ydynt yn gyfarwydd â'r eiddo. e.e. ymgyfarwyddo â defnyddio unrhyw offer gwacáu brys



# Defnyddio diffoddyddion tân

Dylai unrhyw unigolyn y disgwylir iddo ddefnyddio diffoddwr tân:

- Fod yn gyfarwydd â'r cyfarwyddiadau gweithredu;
- Ddeall pa ddiffoddydd y gellir ei ddefnyddio ar fathau gwahanol o dân;
- Fod yn ymwybodol o leoliadau'r diffoddwr tân.

Dylid cadw diffoddyddion tân yn lân er mwyn atal croeshalogi a dylid eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd (os nad yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd, dylid gwneud archwiliadau gweledol rheolaidd i sicrhau nad yw'r offer wedi cael ei ddifrodi.)



# Profi a chynnal a chadw

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog ar y 23ain o Fawrth 2020, ni fydd y ddeddfwriaeth diogelwch tân yn cael ei llacio mewn unrhyw ffordd ar hyn o bryd, a chyfrifoldeb y PC a/neu'r deiliad dyletswydd yw sicrhau eu bod yn profi ac yn cynnal a chadw'r holl fesurau diogelwch tân i gynnal safle diogel.

Barn CCPT yw y dylai pobl sy'n gweithio ar fesurau diogelwch tân hanfodol megis gosod a chynnal a chadw mesurau diogelwch tân gael eu hystyried yn weithwyr allweddol o fewn darpariaethau canllawiau Llywodraeth EM, gan eu bod yn darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol a swyddogaethau diogelwch critigol er mwyn cadw safleoedd yn ddiogel. Rhaid iddynt hefyd gadw eu hunain yn ddiogel wrth gyflawni'r gweithgareddau hanfodol hyn.




# Ffordd o ddianc

Mae dal angen nifer digonol o allanfeydd tân sy'n addas ar gyfer nifer y preswylwyr yn eich eiddo sy'n hygyrch yn syth. Dylai hyn sicrhau nad oes rhaid i'r preswylwyr deithio'n rhy bell, mynd drwy ardal lle mae'r risg o dân yn uchel neu symud tuag at dân i ddianc. Ni ddylid cadw drysau'n sownd ar agor i atal pobl rhag cyffwrdd â dolenni. Mae drysau tân yn fesur diogelwch tân pwysig, cadwch ddrysau tân ar gau a dilynwch gyngor y Llywodraeth am olchi dwylo a glanhau arwynebau caled. Gellir cadw rhai o'r drysau tân ar agor trwy ddyfeisiau sydd wedi'u dylunio a'u gosod yn awtomatig i'w rhyddhau i'r diben hwn.

# Ymweliadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub

Yn y sefyllfa gyfredol, mae GTADC yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth ar gyfyngu cyswllt nad yw'n hanfodol ac yn cymryd ymagwedd yn seiliedig ar risg at bob gweithgaredd diogelwch tân, gan ganolbwyntio adnoddau ar y risgiau uchaf. Oni nodir bod risg sylweddol, mae'n dal yn ddyletswydd ar y Person Cyfrifol i sicrhau bod risg o dân yn cael ei nodi a bod mesurau addas yn cael eu gweithredu. Gellir gwneud hyn drwy adolygu'r asesiad risg tân cyfredol a/neu ofyn am gyngor gan Asesydd Risg Tân cymwys. Mae cyngor cyffredinol ar ddiogelwch tân hefyd ar gael drwy gysylltu â'ch GTA lleol.

# Hysbysiadau cyfreithiol cyfredol a dderbyniwyd gan fy Ngwasanaeth Tân ac Achub lleol

Nid yw'r sefyllfa bresennol gyda COVID-19 wedi newid statws unrhyw hysbysiadau a gyflwynwyd o dan y RR (FS) O 2005. Dylech gysylltu â'r GTA os oes angen cyngor ac arweiniad pellach arnoch. Os na ellir cwblhau'r rhestr cyn i'r hysbysiad ddod i ben, cysylltwch â'ch GTA lleol a fydd yn eich cynghori. Bydd GTADC yn gwirio a gydymffurfir â hysbysiadau, ond bydd hyn yn cael ei wneud ar sail risg yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Gallech hefyd gynorthwyo'r Gwasanaeth Tân ac Achub gydag unrhyw ddiweddariadau mewn perthynas â'r gwaith a wneir, a allai gynnwys delweddau ffotograffig lle bo'n berthnasol, er mwyn hwyluso'r broses hon, a byddant yn cael eu gwirio'n nes ymlaen. Sylwch os ydych chi'n credu na fyddwch yn cwblhau'r gwaith a drefnwyd ar hysbysiad erbyn y dyddiad terfyn a roddir, rhowch wybod i'r GTA cyn gynted â phosib i wneud cais i gael amser ychwanegol

# Materion Amrywiol

- Ystyriwch wahardd unrhyw waith sy'n defnyddio gwres os nad yw'n angenrheidiol. Os nad oes modd osgoi gwneud y gwaith, gwnewch yn siwr ei fod yn cael ei wneud gan berson cymwys sydd ag asesiad risg addas a digonol a gwiriadau priodol ar ôl cwblhau'r gwaith.
- Cadwch ddeunydd gwastraff i ffwrdd o'r adeilad a chyfyngwch mynediad iddo.
- Cadwch lwybrau dianc yn cadw'n glir o unrhyw eitemau/deunydd llosgadwy.
- Gwnewch yn siwr y cydymffurfir yn llwyr â pholisïau ysmygu.